

“Digon i ti fy ngras i”

Yn fynych iawn clywn gwynfan a galargan anobaith fod popeth ar ben arnom. Ond rhywsut, hyd yn oed yn y trai a gofnodir ar bob llaw, mewn gwendid, yn ein gwendid, y mae gras Duw yn parhau i gynnig cyfleoedd i do newydd ddysgu am, a dathlu ffydd, heddiw.

Anhrefn Awst '19

Cawsom dridiau gwych yma yng Ngholeg y Bala yn syth wedi'r Eisteddfod, gyda dros 40 o blant, o Gymru gyfan, wedi dod atom i *Anhrefn Awst* i fwynhau a chael dysgu mwy am Iesu. Edrychom ni ar stori Dafydd gyda'n gilydd: “Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrolyn, ond y mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon.” (1 Samuel 16:7). Roedd yn grêt gallu rhannu gyda'r plant am gariad Duw tuag atynt. Cawsom gemau o bob math, chwaraeon, nofio, trip i Gelli Gyffwrdd yn ogystal â chyfle i ganu i Dduw a gwneud crefft. Roedd yn amser arbennig iawn i bawb oedd yno gan gynnwys yr arweinwyr ifanc oedd wedi dod i helpu o wahanol gapeli a diolch amdanynt!

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar nawr am ein gwrsyll nesaf i blant sef *Ciwb Hydref* Coleg y Bala a fydd



ymlaen o ddydd Llun i ddydd Mawrth gwyliau hanner tymor sef Hydref 28-29. Fe fyddai'n wych os gallwch annog unrhyw blant i ymuno gyda ni. Mae mwy o fanylion ar ein gwefan:

colegybala.org, neu gallwch ein ffonio ar 01678 520565. A chofiwch weddio drosom, dros ein cyrsiau a thros bawb sy'n ymweld â ni!

Angharad Clwyd

Gwahoddiad i Goleg Trefeca

Mae'r panel fu'n adolygu'n canolfannau, a Phwyllgor Trefeca yn eich gwahodd chi fel gweinidogion a gweithwyr cenhadol, i ystyried o'r newydd y cyfleoedd sy gan Drefeca i gynnig i'n heglwysi.



Coleg Trefeca: Cymerwyd o wybodaeth a gasglwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Bellach mae pob llofft yn Nhrefeca efo stafell molchi “en-suite”; mae yna ystafelloedd cyfarfod cyfforddus a bwyd di-ail. Mae hanes y lle, a'i safle ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn gwneud y ganolfan yn fan delfrydol i archwilio ein ffydd a'n hetifeddiaeth.

Ond yn bwysicach, mae Trefeca yn cynnig cyfle gwych i unigolion dyfu yn eu ffydd. Gall blaenoriaid ac aelodau ddod at ei gilydd i dreulio amser mewn gweddi a thrafodaeth, i ystyried eu gwaith a'u tystiolaeth fel eglwys.

Mae mis Medi yn amser da i gynllunio ymlaen, ac mae dal cyfle i eglwysi drefnu i ddod i'r ganolfan am benwythnos, ychydig ddyddiau ganol wythnos, neu am y dydd yn ystod 2020 – yn arbennig canol Mis Mai tan ddiwedd Mis Awst, neu cyn y Pasg, neu ganol Mis Hydref ymlaen.

Am fanylion pellach cysylltwch â rheolwr Coleg Trefeca colegtrefeca@ebcpw.cymru neu 01874711423.

Parch. Brian Matthews,
Llywydd y Panel Adolygu Canolfannau.

Rev. Jenny Garrard,
Adran Trefeca.